

Mark Drakeford AM/AC
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol
Cabinet Secretary for Finance and Local Government

Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau/
Equality, Local Government and Communities Committee
ELGC(5)-07-17 Papur 4 / Paper 4

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref

John Griffiths AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Caerdydd
CF99 1NA



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

15 Chwefror 2017

Annwyl John

Yn fy sesiwn dystiolaeth i'r Pwyllgor ar 2 Chwefror, addewais ysgrifennu at y Pwyllgor i egluro i ba raddau y bydd y Bil yn effeithio ar y rheini sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus ar ran Awdurdodau Cymreig datganoledig.

Bydd y darpariaethau ym Mil yr Undebau Llafur (Cymru), fel y'i cyflwynwyd, yn datgymhwyso darpariaethau'r Trade Union Act 2016 yn achos "awdurdodau Cymreig datganoledig" a ddiffinnir yn Neddf Cymru 2017.

Rhestrir awdurdodau Cymreig datganoledig yn Atodlen 3 i'r Ddeddf. Mae'r diffiniad hefyd yn cynnwys awdurdodau cyhoeddus eraill sy'n arfer swyddogaethau mewn meysydd datganoledig a byddant yn cynnwys cyrff cyhoeddus newydd, fel Awdurdod Cyllid Cymru, a allai gael eu creu yn y dyfodol. Os yw'r awdurdod datganoledig wedi rhoi contract i gorff yn y sector preifat neu gorff yn y sector cyhoeddus i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus, ni fydd y darparwr hwnnw yn dod o dan y diffiniad ac ni fydd felly o fewn cwmplas y Bil.

Bydd y Bil yn newid sut y bydd Trade Union Act 2016 y DU yn gymwys i Gymru yn y ffyrdd a ganlyn.

Mae darpariaethau yn Neddf 2016 ar gyfer amser cyfleuster a didynnu drwy'r gyflogres yn gosod dyletswyddau ar gyflogwyr yn y sector cyhoeddus. Bydd ystyr cyflogwyr sector cyhoeddus fel y'i pennir mewn rheoliadau nad ydynt wedi eu gwneud eto gan yr Ysgrifennydd Gwladol ond ni fyddant yn cynnwys unrhyw gyflogwr yn y sector preifat na'r trydydd sector, pa un a fydd yn darparu gwasanaeth ar ran corff cyhoeddus ai peidio. Effaith y Bil yw na fydd y dyletswyddau hyn yn gymwys i awdurdodau Cymreig datganoledig. Gan nad ydynt yn gymwys i gyrrff yn y sector preifat na'r trydydd sector ar hyn o bryd, ni fydd y darpariaethau sy'n ymdrin ag amser cyfleuster a didynnu drwy'r gyflogres yn berthnasol i

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

unrhyw un a fydd yn gweithio ar ran awdurdod Cymreig datganoledig, er ei bod yn bosibl y byddant yn parhau'n gymwys i gyflogwyr sector cyhoeddus nad ydynt wedi eu datganoli sy'n gweithredu yng Nghymru. Bydd y Trade Union Act 2016 yn gwneud y trothwy o 40% o'r bleidlais yn gymwys i weithwyr sy'n darparu 'gwasanaethau cyhoeddus pwysig' a gaiff eu pennu mewn rheoliadau i'w gwneud gan yr Ysgrifennydd Gwladol ond bydd yn rhaid iddynt fod yn un o'r categorïau a ganlyn:

- a) gwasanaethau iechyd;
- b) addysgu'r rheini sydd o dan 17 oed;
- c) gwasanaethau tân;
- d) gwasanaethau trafnidiaeth;
- e) datgomiynu gweithfeydd niwclear a rheoli gwastraff ymbelydrol a gweddillion tanwydd;
- f) diogelwch ffiniau.

Mae Llywodraeth y DU wedi dehongli bod 'gwasanaethau cyhoeddus pwysig' yn cynnwys unrhyw wasanaeth cyhoeddus pa un a yw'n cael ei ddarparu gan gorff cyhoeddus neu gan gorff yn y sector preifat. Mae rheoliadau drafft a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU ym mis Ionawr 2016 yn dangos mai'r bwriad yw cynnwys gwasanaethau a ddarperir gan weithredwyr rheilffyrdd, bysiau a gwasanaethau awyr yn y sector preifat. Effaith y Bil yw na chaiff rheoliadau bennu bod y gwasanaethau a ddarperir gan awdurdodau Cymreig datganoledig yn 'wasanaethau cyhoeddus pwysig' ac na fydd y trothwy o 40% yn gymwys i weithwyr sy'n gweithredu'n ddiwydiannol a gyflogir gan yr awdurdodau hynny. Byddai'r trothwy yn parhau'n gymwys, fel y nodir yn Neddf 2016, i wasanaethau cyhoeddus pwysig a ddarperir gan gyrrff yn y sector preifat neu'r trydydd sector.

Roedd gan y Pwyllgor ddiddordeb penodol ynghylch sut y byddai'r Bil yn gymwys i wasanaethau gofal cymdeithasol. Oherwydd nad yw gofal cymdeithasol yn dod o dan unrhyw un o'r categorïau o 'wasanaethau cyhoeddus pwysig' y ceir eu pennu yn rheoliadau'r Ysgrifennydd Gwladol, ni all y trothwy o 40% o'r bleidlais fod yn gymwys i weithwyr sy'n cael eu cyflogi i ddarparu gwasanaethau gofal cymdeithasol yng Nghymru. Yr un yw'r sefyllfa pa un a ydynt yn cael eu cyflogi gan awdurdodau Cymreig datganoledig neu gan ddarparwyr yn y sector preifat neu'r trydydd sector.

Er mwyn osgoi unrhyw ddryswch, roeddwn yn awyddus hefyd i egluro'r sefyllfa mewn perthynas ag ymgynghoriad y Llywodraeth ar ddefnyddio gweithwyr asiantaethau, gan fod y mater hwnnw wedi codi yn ystod y drafodaeth. Fel y gŵyr y Pwyllgor, efallai, cynhaliodd Llywodraeth y DU ymgynghoriad ym mis Gorffennaf 2015 ar gynnig i ddirymu Rheoliad 7 o Reoliadau Cynnal Asiantaethau Cyflogaeth a Busnesau Cyflogaeth 2003. Mae Rheoliad 7 yn gwahardd busnesau cyflogaeth rhag darparu gweithwyr dros dro i gymryd lle gweithwyr sy'n gweithredu'n ddiwydiannol. Er nad yw Llywodraeth y DU wedi gweithredu eto yn dilyn yr ymgynghoriad, pe bai yn dirymu'r rheoliad, byddai hynny'n gymwys i weithredu diwydiannol gan weithwyr ym mhob sector, gan gynnwys gweithwyr a gyflogir yn y sector cyhoeddus yng Nghymru.

Ym mis Medi 2016, cyhoeddais ymgynghoriad er mwyn gofyn a ddylai'r sefyllfa gyfreithiol barhau fel y mae yng Nghymru – h.y. cadw'r sefyllfa lle nad yw awdurdodau Cymreig datganoledig yn gallu defnyddio gweithwyr dros dro yn lle staff sy'n gweithredu'n ddiwydiannol. Nid wyf wedi cyhoeddi fy mholisi ar y mater hwn eto ond, fel y dywedais yn fy natganiad deddfwriaethol, un opsiwn fyddai gofyn am ddeddfwriaeth yn y Bil hwn a fyddai'n effeithio ar awdurdodau Cymreig datganoledig. O wneud hynny, byddai effaith dirymu Rheoliad 7 yn gymwys i bob cyflogwr arall.


Soniais hefyd wrth y Pwyllgor am ohebiaeth a anfonwyd ataf gan Ben Gummer AS, Gweinidog dros Swyddfa'r Cabinet a Thâl-feistr Cyffredinol. Rwyf wedi cysylltu â'i swyddfa

ef, gan anfon cais y Pwyllgor i gael gweld yr ohebiaeth ymlaen ato, ac wedi rhoi gwybod i'w staff fy mod yn teimlo bod yn rhaid imi ryddhau'r llythyr ichi.

Mae rhai o elfennau'r dull gweithredu yr ydym wedi'i fabwysiadu mewn perthynas â'r mater hwn, er enghraifft, yr Aseiad Effaith Rheoleiddiol, yn ddibynnol ar gychwyn y darpariaethau hyn yn Neddf y DU. Bydd y Pwyllgor, felly, am fod yn ymwybodol o'r datblygiad hwn wrth iddynt ystyried y Bil, a dyna pam yr wyf wedi penderfynu rhannu'r llythyr atodedig gyda chi heb gydsyniad Swyddfa'r Cabinet.

Rydw i'n anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink that reads "Mark Drakeford". The signature is written in a cursive, slightly slanted style.

Mark Drakeford AC/ AM

Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol
Cabinet Secretary for Finance and Local Government

Mark Drakeford AM/AC
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol
Cabinet Secretary for Finance and Local Government



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref

The Rt Hon Ben Gummer MP
Minister for the Cabinet Office and Paymaster General
70 Whitehall
London
SW1A 2AS

psbengummer@cabinetoffice.gov.uk

15 February 2017

Den Ben,

Thank you for your letter of 24 January.

I enclose an extract from the transcript of the Assembly's Equality, Local Government and Communities Committee that considered the Trade Union (Wales) Bill in their meeting on 2 February.

I would draw your attention to the discussion about correspondence with the UK Government, including a request that your letter is made available to the Committee.

I am aware, following a verbal request by my officials to share the letter, that Cabinet Office has expressed the view that the letter is not for public consumption.

However, given the clear implications for scrutiny of the Bill, I feel obliged to share the letter with the Committee and will do so in due course.

Best wishes,

Mark

Mark Drakeford AM/AC
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol
Cabinet Secretary for Finance and Local Government

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Extract from transcript of Equalities, Local Government and Communities Committee, 2 February meeting

The full transcript of the Committee meeting can be accessed at:
<http://senedd.assembly.wales/documents/s59033/2%20February%202017.html?CT=2>

[22] **John Griffiths:** Well, I'm sure that the committee will be interested in that, and I'm sure that the clerk can make that available. Is there any other correspondence that, subsequent to any of that, Cabinet Secretary, is not in the public domain?

[23] **Mark Drakeford:** Well, Chair, I have received a letter from the Cabinet Office Minister responsible for the UK Bill since this Bill was introduced on the floor of the National Assembly. That is a letter from Ben Gummer MP. My office has been in contact with the Cabinet Office seeking their agreement for me to share that letter with the committee. Their position at the moment is that that letter isn't for public consumption.

[24] **John Griffiths:** Is that a letter that would be germane and relevant to this committee's work in terms of scrutinising this legislation and understanding these issues, Cabinet Secretary?

[25] **Mark Drakeford:** Well, Chair, of course, I've had the benefit of reading the letter and reading it carefully. My conclusion is that the content of the letter is relevant to the work of this committee in the scrutiny of this Bill, and it's why I sought to gain the consent of the writer to making the content of the letter available to you.

[26] **John Griffiths:** I think that the committee might be interested in pressing that point, because I think it's very important that we are in possession of as much information as possible that would help this committee scrutinise this very important legislation. So perhaps these are matters that the committee may wish to discuss further and, perhaps, have further communication with you, Cabinet Secretary.

[27] **Mark Drakeford:** Well, Chair, I will certainly relay that view to my counterpart at Whitehall and relay the content of these last few exchanges.

[28] **John Griffiths:** Okay. Well, we're grateful for that. Okay, perhaps we can move, then, to—. Sorry, Rhianon, did you have a question on this?